

## Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg 'Barn ar Fynegai Amddifadedd Lluosog nesaf Cymru'

### 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru arolwg i gael adborth oddi wrth ddefnyddwyr ynghylch pryd y dylid cyhoeddi Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) nesaf. Cyhoeddwyd y fersiwn lawn ddiwethaf yn 2014.

Hefyd, gofynnwyd i'r defnyddwyr sut maent yn defnyddio MALIC ar hyn o bryd, unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol a fyddai'n defnyddio MALIC, a'u barn ar a'u defnydd o'r gwahanol gynhyrchion eraill sydd wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â MALIC.

Cafwyd 20 ymateb i'r arolwg, a gynhaliwyd rhwng 18 Hydref 2016 a 4 Tachwedd 2016. Roedd 8 ymateb oddi wrth 7 o'r awdurdodau lleol gwahanol yng Nghymru ac roedd y gweddill o wahanol ffynonellau, gan gynnwys rhannau o Lywodraeth Cymru yn ogystal â sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau eraill. Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau a gyflwynodd ymateb llawn yn Atodiad A.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd amser i ymateb i'r arolwg hwn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r holl ymatebion a ddaeth i law, gyda thablau neu graffiau data i grynhoi'r cwestiynau meintiol yn yr arolwg. Gan gymryd yr adborth hwn i ystyriaeth, nodwn ein cynigion ar gyfer fersiwn nesaf MALIC isod.

### 2. Y Camau Nesaf

Mae'r ymatebion i'n harolwg yn cefnogi'r awgrym yr oeddem yn ei ffafrio sef diweddaru'r Mynegai yn 2019. Pwysleisiodd llawer o ddefnyddwyr bwysigrwydd gwell parth tai yn ogystal â nodi bod tueddiadau o ran amddifadedd fel arfer yn fwy amlwg dros y tymor hir ac felly ni fyddai gohirio blwyddyn o 2018 yn arwain at wahaniaethau trawiadol yn y data. Fodd bynnag, dywedodd nifer o ddefnyddwyr y byddai'n well o lawer ganddynt beidio â gorfod aros tan 2020, gan nodi mewn ychydig o achosion amseriad yr asesiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar sail yr adborth i'r arolwg a ddaeth i law, ac ystyriaethau ehangach, dyma ein cynigion:

- Gweithio ar gyhoeddi fersiwn nesaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2019, gan ddechrau ar y paratodau gan gynnwys gwaith ymchwil ac ymgynghori ar ddangosyddion newydd arfaethedig yn 2018
- Blaenoriaethu gwaith i gael dangosyddion trylwyr a pherthnasol i'r parth tai, OND parhau at ddiweddariad yn 2019 hyd yn oed yn absenoldeb gwell data ar y parth tai
- Bwriadu cadw ystod allbynnau MALIC yn debyg yn fras, ond cael gwell cynllun i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o'r mynegai'n well yn y dyfodol
- Yn y cyfamser, parhau â diweddariadau dangosyddion blynyddol ar gyfer 2017 a 2018, a chyhoeddi canllaw un dudalen i hyrwyddo defnydd o'r data dangosyddion blynyddol

### 3. Cefndir

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw offeryn Llywodraeth Cymru i ganfod crynodiadau ardaloedd bach o amddifadedd lluosog ledled Cymru. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf, MALIC 2014, ym mis Tachwedd 2014 ac roedd yn ddiweddariad ac yn welliant ar y ddwy fersiwn flaenorol.

Ni phennwyd y patrwm diweddar o gynhyrchu mynegai bob tair blynedd gan unrhyw sail resymegol benodol. Mae nifer o feysydd datblygu ar y gweill ar hyn o bryd, a hefyd ffactorau allanol sy'n awgrymu bod angen adolygu a chynllunio amseriad yr ychydig rifynnau nesaf.

Cafodd y meysydd datblygu y mae angen eu hystyried eu crynhoi mewn nodyn a luniwyd fel cymorth i'r arolwg, a rhoddir y wybodaeth hon eto isod fel cefndir.

#### 3.1. Ffactorau i'w hystyried

##### A. Diweddariad llawn neu sylfaenol i MALIC?

Roedd rhifyn 2011 o MALIC yn ddiweddariad sylfaenol o fersiwn 2008 gyda mân newidiadau i'r dangosyddion (a dim diweddariad i'r cyfrifiadau Mynediad i Wasanaethau neu ddangosyddion y Cyfrifiad), ond ar gyfer 2014 roedd proses fwy cymhleth gydag ymgynghoriad, diweddariadau i'r holl ddangosyddion, ac adolygiad o ba allbynnau oedd yn cael eu cynhyrchu a sut yr oeddent yn cael eu dosbarthu.

Mae profiad o MALIC 2014 yn awgrymu y dylid dechrau'r broses ar gyfer MALIC nesaf o leiaf dwy flynedd ymlaen llaw ar gyfer diweddariad llawn. Neu fel arall amcangyfrifir y bydd diweddariad sylfaenol gyda mân newidiadau i'r dangosyddion, dim diweddariad i rai (e.e. Mynediad i Wasanaethau) a dim ymgynghoriad, yn cymryd blwyddyn, ar yr amod bod digon o adnoddau ar gael yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i weithio ar y diweddariad mewn cyfnod penodol.

Yn y dyfodol, byddai diweddariad llawn yn ein galluogi i ystyried cynnwys data fyddai ar gael o'r newydd (megis Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, y Rhaglen Mesur Plant ac ati) ond ni fyddai diweddariad sylfaenol yn caniatáu amser ar gyfer hyn, o angenrheidrwydd.

##### B. Parthau Incwm a Chyflogaeth

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dechrau gweithredu newidiadau i'r system fudd-daliadau (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) a bydd y rhain yn cael effaith sylweddol ar y data a ddefnyddir ar gyfer parthau cyflogaeth ac incwm MALIC. Ar hyn o bryd rhagwelwn y bydd data dangosyddion MALIC ar gyfer y cyfnod 2016 i 2021 (ac yn fwyaf tebygol y tu hwnt i hynny) yn cynnwys cymysgedd o hawlwr ar yr hen system a'r system newydd. Erbyn 2017, byddai'r data diweddaraf fyddai ar gael yn adlewyrchu sefyllfa lle mae'r holl hawlwr newydd ym mhob awdurdod lleol (a rhai hawlwr etifeddol) ar y system newydd. Mae'n aneglur hyd yma sut y gellid trin y cymysgedd o ddata o fewn MALIC, ac mae angen cryn dipyn o waith i ddatblygu dangosyddion addas i'r diben.

##### C. Parth tai

Mae gwaith i nodi data tai ardaloedd bach priodol ar y gweill, o gofio'r consensws cyffredinol bod angen gwella'r dangosyddion cyfredol (gorlenwi a gwres canolog). Nod y parth yw cofnodi amddifadedd trwy ddiffyg tai digonol (yn nhermau cyflwr ffisegol tai, amodau byw ac argaeledd), ac rydym yn credu y byddai mesuriad ansawdd tai a ddeillir o ddata o arolwg o eiddo'n ddelfrydol.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd, hyd yn oed ar lefel genedlaethol. Datblygu gwell data ar gyflwr tai yng Nghymru yw nod y Rhaglen Tystiolaeth Cyflwr Tai, y cytunwyd arni'n ddiweddar, ond mae'n annhebygol y byddai unrhyw ddangosyddion newydd ar gael mewn pryd ar gyfer diweddariad cyn 2019 ac felly byddai'n rhaid i ddiweddariadau

cynharach barhau i ddefnyddio data Cyfrifiad 2011. Un cwestiwn allweddol yw a yw defnyddwyr yn gweld gwerth mewn diweddariad arall gyda pharth tai anfoddfaol.

#### D. Cyfrifiad 2021

Disgwylir i ddata ardaloedd bach o Gyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi yn 2023, ac ar hyn o bryd maent yn darparu pedwar dangosydd allweddol (salwch hirdymor cyfyngus, gorlenwi, gwres canolog, cymwysterau).

#### E. Asesiadau o Lesiant Lleol

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal. Mae'r asesiadau cyntaf i fod i gael eu cyhoeddi yn y cyfnod cyn Mai 2017, ac mae'r asesiadau dilynol yn debygol o gael eu cyhoeddi yn y cyfnod cyn Mai 2021. Mae'r amserlen hon yn gysylltiedig ag Etholiadau Llywodraeth Leol.

Gall safleoedd MALIC a'r dangosyddion sy'n sail iddynt fod yn ddata allweddol y bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn dewis eu defnyddio yn eu hasesiadau. Mae rhai dangosyddion yn cael eu diweddarau bob blwyddyn, ond nid yw eraill, a dim ond ym mlynnyddoedd diweddariadau llawn i MALIC mae dangosyddion wedi'u gwella'n cael eu hychwanegu at ein hystod o ddata. Felly, ymddengys yn gall cynllunio amseriad rhifynnau o MALIC yn y dyfodol i gyd-fynd â'r cylch mae'r Ddeddf newydd wedi'i greu. Ar hyn o bryd mae hyn yn awgrymu cylch 4 blynedd, gan ddechrau yn 2019 neu 2020 cyn yr asesiadau sydd i fod i gael eu cyhoeddi tua Mai 2021.

### 3.2. Amserlen enghreifftiol

Oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i gynhyrchu'r mynegai a'n blaenoriaethau presennol o ran gwaith dadansoddi, 2018 yw'r adeg gynharaf y byddem yn gallu diweddarau'r mynegai. **Fel enghraifft**, mae'r tabl isod yn nodi rhai dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â diweddariad llawn i MALIC tua diwedd 2019, a diweddariad arall ar ôl Cyfrifiad 2021.

Yn nhestun yr arolwg, dywedasom yn wreiddiol mai'r opsiwn sydd orau gennym ni yw dechrau gwaith datblygu (grwpiau parthau ac ymgynghoriad) yn 2018 ar gyfer diweddariad llawn tua diwedd 2019, ond gyda'r posibilrwydd o ohirio tan 2020 pe bai angen hyn er mwyn cynnwys gwell data tai.

Digwyddiad allweddol	Dyddiad
Cyflwyno system les newydd (Credyd Cynhwysol)	2013/14+
Cynnull grwpiau arbenigwyr parthau i edrych ar ddangosyddion newydd a chynnal ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig – <i>enghraifft esboniadol</i>	Dechrau 2018
Argaeledd posibl data ar ansawdd tai i gael ei fodelu ar gyfer ardaloedd bach	Canol 2019
Cyhoeddi MALIC 2019 - <i>enghraifft esboniadol</i>	Diwedd 2019
Cyhoeddi ail Asesiadau o Lesiant Lleol – <i>gall hyn newid</i>	2020/21
System les newydd ar waith gan fwyaf	2022
Cyhoeddi canlyniadau ardaloedd bach o Gyfrifiad 2021– <i>gall hyn newid</i>	Dechrau – canol 2023
Cyhoeddi diweddariad i MALIC gan ddefnyddio data newydd o'r Cyfrifiad a'r rhan fwyaf o amddifadedd incwm/cyflogaeth wedi'u seilio ar y system les newydd	Diwedd 2023 neu 2024

## 4. Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 20 ymateb llawn i'r arolwg defnyddwyr (gweler Atodiad A):

- 8 oddi wrth 7 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru
- 4 oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus (ac eithrio Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol)
- 4 oddi wrth Lywodraeth Cymru
- 2 sefydliad yn y trydydd sector
- 2 arall

Cafodd chwe ymateb anghyflawn ychwanegol eu cyflwyno (dau oddi wrth aelodau o'r cyhoedd, a phedwar oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus). Nid yw'r ymatebion rhannol hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad isod, ond o ran y cwestiynau a atebwyd, yn gyffredinol roeddent yn gyson â'r ymatebion llawn a gyflwynwyd.

### 4.1. Pwyntiau allweddol:

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi'r amseriadau posibl ar gyfer y rhifyn nesaf o MALIC yn y drefn oedd orau ganddynt, gyda'r opsiynau 2018, 2019 ac 2020. Rhoddodd 65% o'r ymatebwyr (13 o 20) 2019 fel eu dewis cyntaf ar gyfer dyddiad cyhoeddi. Rhoddodd y gweddill 2019 fel eu hail ddewis; nid oedd yn ddewis olaf gan neb.
- Gan bwysoli'r dewisiadau fel bod y dewis cyntaf yn cael tri phwynt, yr ail yn cael dau bwynt a'r trydydd yn cael un pwynt, gellir rhoi sgôr pwyntiau i'r gwahanol flynyddoedd (uwch yn well gan yr ymatebwyr). Yn yr achos hwn, 32 oedd y sgôr ar gyfer 2018, 53 oedd y sgôr i 2019, a 35 oedd y sgôr i 2020.
- Roedd pob ymatebydd wedi defnyddio o leiaf un o wahanol allbynnau MALIC ac roedd 60% (12 o 20) wedi defnyddio 5 neu ragor o wahanol allbynnau MALIC.
- Allbynnau MALIC oedd wedi'u defnyddio amlaf oedd y data dangosyddion ar StatsCymru a'r offeryn rhyngweithiol. Roedd 16 o 20 o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r rhai cyntaf ac 14 o 20 wedi defnyddio'r ail un.


### 4.2. Canlyniadau'r arolwg

Cafwyd 20 ymateb. Cwblhaodd 19 ymatebydd yr arolwg yn Saesneg a chwblhaodd 1 yr arolwg yn Gymraeg.

**Ymatebion i Gwestiwn 1: Pa sefydliad/adran ydych chi'n ei gynrychioli, neu ydych chi'n ymateb fel aelod o'r cyhoedd?**

- 8 oddi wrth 7 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru
- 4 oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus (ac eithrio Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol)
- 4 oddi wrth Lywodraeth Cymru
- 2 sefydliad yn y trydydd sector
- 2 arall

**Ffigwr 1: Siart yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 1**



**Ymatebion i Gwestiwn 2: Disgrifiwch yn gryno sut yr ydych yn defnyddio MALIC ar hyn o bryd a pha mor aml yr ydych yn ei ddefnyddio.**

Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn fod MALIC yn aml yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â ffynonellau data eraill yn ogystal â chael ei ddefnyddio i ganfod ardaloedd sy'n gymwys i gael grantiau neu i dargedu ardaloedd ar gyfer cyllid.

Nododd llawer o'r ymatebwyr o awdurdodau lleol eu bod yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau polisi yn ogystal â'i ddefnyddio i ganfod cymhwysedd i gael grantiau. Soniwyd hefyd am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y gellid defnyddio'r Mynegai i ddarparu gwybodaeth i'r cynlluniau strategol ar gyfer hon.

Roedd ymatebwyr eraill yn defnyddio'r Mynegai gan fwyaf i gymharu ardaloedd mwy a llai amddifad, fel arfer yn eu maes arbenigedd. Yn aml, defnyddir y pumed mwyaf amddifad a'r pumed lleiaf amddifad i ddangos y bwlch rhwng y ddau.

**Ymatebion i Gwestiwn 3: Disgrifiwch unrhyw weithgarwch arfaethedig penodol sy'n debygol o ddefnyddio MALIC, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rhowch amseriadau hysbys ar gyfer y gweithgareddau.**


Soniodd llawer o'r awdurdodau lleol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r asesiadau sy'n ofynnol o dani yn eu hatebion. Nid oedd gan bedwar ymatebydd ddim byd arfaethedig ac atebodd wyth y byddent yn parhau i ddefnyddio MALIC yn yr un ffordd ag y maent yn y gorffennol – rhai'n ei ddefnyddio bob blwyddyn ac eraill yn ei ddefnyddio mewn dull mwy ad hoc. Nododd un ymatebydd gynlluniau i ddefnyddio MALIC fel rhan o waith ymchwil academaidd i iechyd meddwl.

**Ymatebion i Gwestiwn 4: Rhowch yr amseriadau posibl isod ar gyfer y rhifyn nesaf o MALIC yn y drefn sydd orau gennych:**

- 2018
- 2019
- 2020

Rhoddodd 65% o'r ymatebwyr (13 o 20) 2019 fel eu dewis cyntaf ar gyfer dyddiad cyhoeddi. Rhoddodd y gweddill 2019 fel eu hail ddewis; nid oedd yn ddewis olaf gan neb.

**Ffigwr 2: Siart yn dangos yr ymatebion i Gwestiwn 4**



Gan bwysoli'r dewisiadau fel bod y dewis cyntaf yn cael tri phwynt, yr ail yn cael dau bwynt a'r trydydd yn cael un pwynt, gellir rhoi sgôr pwyntiau i'r gwahanol flynyddoedd (uwch yn well gan yr ymatebwyr). Yn yr achos hwn, 32 oedd y sgôr ar gyfer 2018, 53 oedd y sgôr i 2019, a 35 oedd y sgôr i 2020 (gweler Tabl 1).

Roedd ffafrio naill ai 2018 neu 2020 yn amrywio yn ôl y dull a ddefnyddiwyd. 2018 a gâi ei ffafrio mewn system 'y cyntaf i'r felin' ond 2020 a gâi ei ffafrio mewn system o sgorau wedi'u pwysoli.

**Tabl 1: Sgorau wedi'u pwysoli ar gyfer Cwestiwn 4**

	Dewis cyntaf	Ail ddewis	Trydydd dewis	Sgôr wedi'i phwysoli
<b>2018</b>	4	4	12	32
<b>2019</b>	13	7	0	53
<b>2020</b>	3	9	8	35

**Ymatebion i Gwestiwn 5: Disgrifiwch y rhesymau dros eu rhoi yn y drefn honno.**

Soniodd 8 o'r 20 ymatebydd am yr angen am ddiweddariad llawn, a nododd nifer ohonynt wendid y parth tai. Dywedodd rhai ymatebwyr fod amddifadedd ardaloedd yn fesuriad cymharol sefydlog ac anaml mae ACEHI yn symud llawer o safleoedd rhwng mynegeion. Felly, roeddent yn fodlon aros blwyddyn ychwanegol i gael diweddariad llawn yn 2019. Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod yn amharod i aros tan 2020 gan ystyried bwlch o 6 blynedd rhwng mynegeion yn rhy hir, ac yn rhy agos at yr amseriad disgwylidig ar gyfer yr asesiadau nesaf sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Ymatebion i Gwestiwn 6: Ar gyfer MALIC nesaf, pa flaenoriaeth fyddech chi'n ei rhoi i ddiweddariad sylfaenol neu ddiweddariad llawn, o gofio y gall gymryd blwyddyn yn hirach i gynhyrchu diweddariad llawn? Disgrifiwch y rhesymau dros roi'r flaenoriaeth hon.**

Pwysleisiodd 16 o'r 20 ymatebydd (80 y cant) bwysigrwydd diweddariad llawn. Dywedodd y rheiny oedd eisiau diweddariad sylfaenol mai'r prif reswm oedd nad oeddent eisiau aros yn hirach am

ddiweddariad llawn. Unwaith eto, nododd nifer o'r ymatebwyr allu'r Mynegai presennol i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion. Dywedodd nifer y byddent yn fodlon aros blwyddyn (2018 i 2019) i gael diweddariad llawn, ond roddent yn llai parod i aros tan 2020.

### **Ymatebion i Gwestiwn 7: Ydych chi'n defnyddio data dangosyddion blynyddol MALIC? Os ydych, pa rai sydd o ddiddordeb ichi a pham?**

Atebodd 11 o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio data dangosyddion blynyddol: o fewn y rhain incwm, cyflogaeth, addysg ac iechyd oedd y dangosyddion a nodwyd amlaf. Roedd rhywfaint o anghysondeb rhwng yr atebion i'r cwestiwn hwn a'r atebion a welwyd i gwestiwn 8. Gallai hyn fod oherwydd i'r ymatebwyr ddweud eu bod yn defnyddio 'data dangosyddion ar StatsCymru' pan mai'r safleoedd a gyhoeddir ar StatsCymru maent yn eu defnyddio ond nad ydynt yn defnyddio data dangosyddion, neu eu bod wedi defnyddio data dangosyddion yn y gorffennol ond nad ydynt yn eu defnyddio mwyach.


### **Ymatebion i Gwestiwn 8: Mae'r canlynol yn gynhyrchion ystadegol a ddarparwyd pan gyhoeddwyd MALIC 2014 (neu fel dadansoddiadau dilynol). Nodwch yn y tabl isod pa rai, os o gwbl, rydych wedi'u defnyddio:**

- **Adroddiad MALIC**
- **Crynodeb gweithredol (MALIC)**
- **Offeryn rhyngweithiol (<http://wimd.wales.gov.uk/>)**
- **Canllawiau ar ei ddefnyddio (MALIC)**
- **Canllaw ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig**
- **Dadansoddiad fesul ardal o amddifadedd plant**
- **Canllaw ar ddadansoddi data dangosyddion**
- **Adroddiad technegol**
- **Data dangosyddion ar StatsCymru**
- **Data dangosyddion yn ôl oedran ar StatsCymru**

Roedd pob ymatebydd wedi defnyddio o leiaf un o wahanol allbynnau MALIC ac roedd 60% (12 o 20) wedi defnyddio 5 neu ragor o wahanol allbynnau MALIC.

Allbynnau MALIC oedd wedi'u defnyddio amlaf oedd y data dangosyddion ar StatsCymru a'r offeryn rhyngweithiol. Roedd 16 o 20 (80 y cant) wedi defnyddio'r rhai cyntaf ac 14 o 20 (70 y cant) wedi defnyddio'r ail un. Fel y dywedir uchod, roedd rhywfaint o anghysondeb rhwng yr atebion i gwestiynau 7 ac 8 felly dylid dehongli'r canlyniadau ar gyfer y data dangosyddion ar StatsCymru'n ofalus.

**Ffigwr 3: Siart yn dangos yr ymatebion i Gwestiwn 8**



**Ymatebion i Gwestiwn 9: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ansawdd a defnyddioldeb y cynhyrchion ystadegol a gynhyrchwyd? Beth hoffech chi ei weld eto?**

Soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr offeryn rhyngweithiol a dywedasant ei fod yn ddefnyddiol ac yn hygyrch. Dywedodd tri eu bod yn defnyddio data ar lefel awdurdod lleol ac y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn gweld mwy yn cael ei gyhoeddi yn benodol i awdurdodau lleol. Cafodd yr adroddiad technegol ei grybwyll hefyd gan nifer o ddefnyddwyr fel rhywbeth defnyddiol, yn enwedig pan gaiff MALIC ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddiad ystadegol pellach. Dywedodd un ymatebydd y byddai modd chwilio fesul degradd a chwarter yn ddefnyddiol ac o gofio nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r mesuriadau hyn a'r ymholiadau yn ein blwch derbyn, rydym wedi penderfynu ychwanegu degraddau, cwintelau a chwarterlau i'r daenlen gyda safleoedd ar ein gwefan.

**Ymatebion i Gwestiwn 10: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am wella'r ffordd mae'r wybodaeth am MALIC yn cael ei dosbarthu?**

Nid oedd gan y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar wella'r ffordd mae MALIC yn cael ei ddisbarthu, a dywedasant eu bod yn fodlon ar yr ystod bresennol o allbynnau. Dywedodd dau ymatebydd yr hoffent i fwy o gyhoeddusrwydd gael ei roi i MALIC gan y teimlent nad oedd llawer o bobl yn ymwybodol o'r cyhoeddiad a bod yna botensial iddo gael mwy o sylw. Nododd un ymatebydd ei fod wedi mwynhau'r sesiwn 'cyn-gyhoeddi' ac y credai ei bod yn ddefnyddiol i gael awdurdodau lleol i 'wirio synnwyr' y canlyniadau.

**5. Gwledydd eraill y Deyrnas Unedig**

Mae gan wledydd eraill y Deyrnas Unedig (Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) hefyd fynegeion amddifadedd sy'n debyg i MALIC. Er nad yw'r parthau gwaelodol a dangosyddion yr un peth i bob gwlad, mae'r bwriad sylfaenol yn debyg. Mae yna Weithgor Mynegai Amddifadedd Lluosog y Pedair Gwlad sy'n cyfarfod unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i drafod materion cyffredin.



Er gwybodaeth, mae'r tabl isod yn rhoi dyddiad cyhoeddi diweddaraf y Mynegai ym mhob gwlad yn ogystal â dolen i'w wefan. Byddwn yn parhau i drafod materion cyffredin sy'n ymwneud â datblygu mynegeion gyda'r Pedair Gwlad, yn arbennig o gofio amseriad agos tebygol y mynegeion nesaf.

<b>Gwlad</b>	<b>Cyhoeddiad diweddaraf</b>	<b>Gwefan</b>
Cymru	2014	<a href="http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy">http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy</a>
Lloegr	2015, disgwylir y nesaf 2019	<a href="https://www.gov.uk/government/collections/english-indices-of-deprivation">https://www.gov.uk/government/collections/english-indices-of-deprivation</a>
Yr Alban	2016, disgwylir y nesaf 2019	<a href="http://www.gov.scot/Topics/Statistics/SIMD">http://www.gov.scot/Topics/Statistics/SIMD</a>
Gogledd Iwerddon	2010, disgwylir y nesaf 2017	<a href="http://www.nisra.gov.uk/deprivation/nimdm_2010.htm">http://www.nisra.gov.uk/deprivation/nimdm_2010.htm</a>

Tîm Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Mawrth 2017

## **Atodiad A**

Rhestr o'r sefydliadau a gyflwynodd ymateb llawn:

- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe
- Dinas a Sir Abertawe – Gwybodaeth ac Ymchwil
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Adran Partneriaeth Ymgysylltiad Polisi (PEP), Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Sector tai
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Gwasanaeth Ymchwil
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heddlu De Cymru
- 4 x Llywodraeth Cymru (Polisi Addysg, Polisi Tai, Is-adran Datgarboneiddio ac Ynni, Heb ei nodi)
- RSPCA Cymru
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol Bangor
- Uned Ddata Cymru